# RICHARDS, WILLIAM LESLIE (1916-1989), Ysgolhaig, athro, bardd a llenor

**Enw:** William Leslie Richards
**Dyddiad geni:** 1916
**Dyddiad marw:** 1989
**Priod:** Elizabeth Mair Pamela Richards (née Jones)
**Rhiant:** Anne Richards (née Davies)
**Rhiant:** William Richards
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Ysgolhaig, athro, bardd a llenor
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Huw Ceiriog Jones

Ganwyd yn y Cwm, Capel Isaac, ger Llandeilo, Sir Gaerfyrddin yn ail fab i William Richards a'i wraig Anne (gynt Davies). Ganwyd pedwar o blant i William ac Anne, sef David Whitson (1915-1983), William Leslie, Eleanor Heddwen (1919-1966), a Benjamin Hugh (1924-). Tyddynwyr oedd y rhieni.

Addysgwyd ef yn ysgol gynradd Capel Isaac, Ysgol Ramadeg Llandeilo, a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yn 1938. O 1939-40 bu'n ddisgybl–ddarlithydd yn Adran y Gymraeg. Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd allan rhestrodd fel gwrthwynebydd cydwybodol ac anfonwyd ef i weithio yn y fforest ger Llanymddyfri. Yn ddiweddarach ymunodd ag Uned Ambiwlans y Crynwyr, gan weithio yn Lloegr, yr Almaen a Gwlad Pwyl. Yr oedd wedi dechrau gwaith ymchwil ar farddoniaeth Dafydd Llwyd o Fathafarn cyn y rhyfel, ac yn 1946 dychwelodd i Aberystwyth i barhau â'r gwaith. Dyfarnwyd gradd M.A. iddo yn 1947. Yn ystod ei gyfnod yn y coleg enillodd ysgoloriaeth deithio yn 1937 a'i galluogodd i fynd i'r Almaen; dyfarnwyd iddo Wobr Goffa T.E. Ellis am draethawd yn 1939. Bu hefyd yn flaenllaw gyda chymdeithasau'r coleg, megis y Gymdeithas Geltaidd a'r Debates Union. Bu'n aelod o bwyllgor golygyddol *Y Ddraig* ac Ysgrifennydd yr Eisteddfod Ryng-golegol hefyd. Yn 1947 ymunodd â staff adran Gymraeg Ysgol Ramadeg Llandeilo a dod yn bennaeth yr adran. Wedi newid trefn addysg yn Llandeilo yn 1969 symudodd i fod yn bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Tre-gib, gan ddod yn ddirprwy brifathro'r ysgol o 1975 hyd ei ymddeoliad yn 1981.

Cyhoeddodd dair nofel, *Yr Etifeddion* (1956), *Llanw a Thrai* (1958) a *Cynffon o Wellt* (1960), a phum cyfrol o farddoniaeth, *Telyn Teilo* (1957), *Bro a Bryniau* (1963), *Dail yr Hydre* (1968), *Adledd* (1973) a *Cerddi'r Cyfnos* (1986). Yn 1965 cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru ei olygiad o *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, cyfrol a enillodd iddo Wobr Goffa Syr Ellis Griffith. Bu hefyd yn gyd-olygydd, gyda D. H. Culpitt, y gyfrol *Y Cawr o Rydcymerau: cerddi coffa i'r diweddar Ddr. D. J. Williams* (1970).

Yn ogystal â dysgu cenedlaethau o blant Llandeilo cyfrannodd at y byd addysg trwy ei gyhoeddiadau hefyd. Bu ei gyfrol *Ffurfiau'r Awen: detholiad o farddoniaeth Gymraeg* (1961) yn llyfr gosod i ysgolion uwchradd. Bu hefyd yn gyd-olygydd, gyda H. Meurig Evans a W. J. Harries, pedair cyfrol o *Cymraeg Heddiw*. Ganwyd y cylchgrawn *Barn* yn 1962, ac ef oedd golygydd cyntaf yr adran addysg. Yr oedd yn gyfrannwr cyson i gylchgronau cenedlaethol, megis *Y Llenor*, *Llên Cymru*, *Taliesin*, *Y Traethodydd*, *Y Genhinen*, *Yr Efrydydd*, *Yr Einion* a *Blodau'r Ffair*. Bu'n feirniad eisteddfodol amlwg, gan gynnwys bod yn feirniad cystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi yn 1976. Bu'n aelod o gymdeithasau cenedlaethol, yn cynnwys Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ac Undeb Awduron Cymru. Urddwyd ef yng Ngorsedd y Beirdd â'r wisg wen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro, 1972. Yr oedd wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Llên yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch ddwy flynedd ynghynt.

Yn lleol bu'n weithgar iawn yn 'y pethe'. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cylch Llên Llandeilo, yn westai cyntaf Clwb Cinio Llandeilo, yn arweinydd nosweithiau llawen a siaradwr gwadd. Yr oedd ganddo ddiddordeb yn y ddrama hefyd, fel actor a chynhyrchydd. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Ysgol Gymraeg Llandeilo (bellach Ysgol Teilo Sant), ac yn gefnogwr a siaradwr yn ymgyrchoedd cynnar Plaid Cymru yn sir Gaerfyrddinsir Gâr. Bu hefyd yn ddiacon ac Ysgrifennydd Y Capel Newydd, Llandeilo, am flynyddoedd.

Ei brif ddiddordeb amser hamdden oedd ei deulu a darllen. Yr oedd yn gymeriad o ddaliadau cryf, yn enwedig yngl n â'r iaith Gymraeg, ei fro enedigol a heddychiaeth. O'i adnabod yn iawn yr oedd yn gwmni difyr a llawn hiwmor. O ran pryd a gwedd yr oedd yn weddol fyr ac o bryd tywyll, gyda wyneb crwn, fel llawer o'i dylwyth.

Yn 1942 priododd ag Elizabeth Mair Pamela Jones (1920-2002), Ffosyresgob, Capel Isaac, a ganwyd iddynt bedwar o blant. Bu farw yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, ar 27 Rhagfyr 1989, wedi cystudd byr. Ar 30 Rhagfyr, wedi gwasanaeth cyhoeddus yn Y Capel Newydd, Llandeilo, rhoddwyd ei weddillion i orffwys gyda'i gyndeidiau ym mynwent Siloam, Pontargothi.

## Awdur

**Huw Ceiriog Jones**

## Ffynonellau

*Cofio W. Leslie Richards* (Dinbych 1996), golygwyd gan Eleri Davies. Dinbych: Gwasg Gee, 1996. Mae'r gyfrol hon yn cynnwys teyrngedau gan ddau gyfaill agos, Dyfnallt Morgan ac Emlyn Evans, a nifer o ffotograffau

Ceir casgliad bychan o archifau, ynghyd â thâp sain o'r bardd a baratowyd yn wreiddiol gan Lyfrgell Sir Gaerfyrddin, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwybodaeth gan y teulu

adnabyddiaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751835

**Dyddiad cyhoeddi:** 2008-07-30

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu